

## **1. CYFLWYNIAD**

### **1.1 DATGANIAD**

Mae Awdurdod Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru wedi mabwysiadu'r egwyddor y bydd wrth gynnal busnes cyhoeddus yng Nghymru yn trin y Gymraeg a'r Saesneg ar y sail eu bod yn gyfartal. Mae'r cynllun hwn yn nodi sut y bydd Awdurdod Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru yn gweithredu'r egwyddor honno wrth ddarparu gwasanaethau i'r cyhoedd yng Nghymru.

Mae'r Cynllun Iaith Gymraeg diwygiedig hwn wedi derbyn cymeradwyaeth Bwrdd yr Iaith Gymraeg o dan Adran 16 o Ddeddf yr Iaith Gymraeg 1993 ar 27ain Ebrill 2007.

Mae'r Awdurdod yn ymrwymedig i drin yr iaith Gymraeg a'r Saesneg ar y sail eu bod yn gyfartal wrth ddarparu gwasanaethau i'r cyhoedd p'un a ydynt yn unigolion, grwpiau neu gymunedau, neu'r cyhoedd yn gyffredinol. Wrth wneud hyn bydd yr Awdurdod yn darparu gwasanaeth o'r un safon dda p'un ai drwy gyfrwng y Gymraeg neu'r Saesneg.

Mae'r Awdurdod yn cydnabod bod hawl gan unigolion i ddefnyddio'u dewis iaith ac mai cyfrifoldeb yr Awdurdod yw hwyluso'r defnydd a wneir o'r Gymraeg ble bynnag a phryd bynnag y bo hynny'n bosibl.

Mae'r Awdurdod yn ymwybodol bod ganddo rôl o ran cynnal a meithrin treftadaeth yr iaith Gymraeg. Tasg yr Awdurdod yw gweithredu Cynllun Iaith Gymraeg fydd yn darparu pecyn o wasanaethau o safon ar gyfer y boblogaeth Gymraeg ei hiaith i'w defnyddio.

### **1.2 GWASANAETH TÂN AC ACHUB CANOLBARTH A GORLLEWIN CYMRU**

Mae Gwasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru yn ymestyn dros rhyw 4,500 o filltiroedd sgwâr sydd bron yn ddwy ran o dair o diriogaeth Cymru. Mae amrywiaeth eang o risgiau i'w gweld yn ardal yr Awdurdod sy'n amrywio o'r diwydiannau petrogemegol yn Aberdaugleddau, Sir Benfro a Llansawel, Castell-nedd, i'r risgiau sy'n gysylltiedig ag ardaloedd poblog megis Abertawe, Port Talbot a Llanelli. Mae yma ardal amaethyddol eang a nifer o ddiwydiannau ysgafn eraill. Mae'r rhain i gyd, ynghyd ag arfordir helaeth ac afonydd lawer, yn rhai o'r risgiau arbenigol yn rhanbarth y Canolbarth a'r Gorllewin.

Ers mis Ebrill 2003, mae'r Gwasanaeth wedi'i drefnu yn chwech Ardal Reoli Sirol, sy'n dilyn yr un ffiniau ag ardaloedd yr awdurdodau unedol Sir Gaerfyrddin, Ceredigion, Dinas a Sir Abertawe, Castell-nedd a Phort Talbot, Sir Benfro a Phowys. Mae Pencadlys y Gwasanaeth yng Nghaerfyrddin, ac mae'r Ganolfan Lleihau Risg Cymunedol a Phencadlys Ardal Reoli Sir Abertawe yn Nhreforys.

Mae'r Gwasanaeth yn cynnwys 57 o orsafoedd llawn-amser, criw dydd, wrth gefn a gwirfoddol. Nifer y staff ar hyn o bryd, gan gynnwys staff gweithredol a staff cynnal, yw rhyw 1,400.

Caiff yr Aelodau Etholedig eu henwebu o bob un o'r chwech awdurdod unedol, a hwy ar y cyd sy'n ffurfio Awdurdod Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru, sef y prif gorff sy'n ffurfio polisïau. Mae'r Awdurdod Tân yn cyfarfod bob chwarter, ac yn gefn i'r Awdurdod mae tri prif bwyllgor sef Adnoddau, Personnel, ac Adolygu Perfformiad a Pholisi sy'n cyfarfod yn gyson i ystyried materion o fewn eu gwahanol feysydd cyfrifoldeb.

Ariennir y Gwasanaeth yn uniongyrchol gan y chwe Awdurdod Unedol yn ôl nifer eu poblogaeth.

Mae'r Awdurdod wedi cytuno ar y weledigaeth, y genhadaeth a'r nodau canlynol:

### **Gweledigaeth**

Cymunedau mwy diogel, lle mae marwolaethau, anafiadau a difrod y mae modd eu harbed rhag digwydd, o ganlyniad i danau ac argyfyngau eraill, yn cael eu cadw mor isel â phosibl.

### **Cenhadaeth**

Creu cymunedau mwy diogel

### **Nodau**

Lleihau nifer y tanau ac argyfyngau eraill a chadw'r risg o dân mor isel â phosibl drwy fesurau rhagweithiol a luniwyd i hyrwyddo amgylchedd mwy diogel.

Ymateb yn effeithiol ar frys i achosion o dân ac argyfyngau eraill.

Gweithio gyda'n cymunedau, ein partner sefydliadau a rhanddeiliaid eraill i wireddu ein gweledigaeth.

Gwella'n barhaus y modd y darparwn ein gwasanaeth ac addasu i'r disgwyliadau o'r newydd sydd arnom gan ein cymdeithas.

Darparu gwasanaeth o safon uchel ac effeithiol i bawb sy'n byw, yn gweithio ac yn ymweld â Chanolbarth a Gorllewin Cymru a sicrhau gwerth am arian.

Cyflawni'r gwasanaeth hwn gyda chysondeb, urddas a pharch at amrywiaeth ein staff a'n cymunedau.

### **Siaradwyr Cymraeg**

Mae nifer y siaradwyr Cymraeg yn ardal y Gwasanaeth yn amrywio gryn dipyn, ac yn y cyfrifiad diwethaf, cofnodwyd y canrannau canlynol o bobl oedd â'r sgiliau siarad, darllen neu ysgrifennu Cymraeg yn wardiau'r aelod awdurdodau:

Sir Gaerfyrddin	:	47.1%
Ceredigion	:	58.9%
Sir Benfro	:	27.2%
Powys	:	25.7%

Castell-nedd Port Talbot	:	20.4%
Abertawe	:	14.3%

### 1.3 Cyd-destun ein Gwaith

Rheolir y Gwasanaeth Tân ac Achub yng Nghymru a Lloegr gan amrywiol ddeddfwriaethau a chyfarwyddyd rheoleiddio, ond yr un deddf sydd o bwys mawr yw *Deddf Gwasanaethau Tân ac Achub 2004* (y Ddeddf).

Mae'r Ddeddf yn ei gwneud yn ofynnol i bob awdurdod tân wneud darpariaeth at ddibenion ymladd tân, sy'n golygu nid yn unig diffodd tân ond hefyd diogelu bywyd ac eiddo mewn achosion o dân. Hefyd mae'r Ddeddf yn darparu ar gyfer mynd allan mewn achosion o ddamweiniau traffig ffordd ac argyfyngau eraill yn ogystal â deddfu ar gyfer ymgymryd â gweithgareddau diogelu'r gymuned.

Mae'r cyfrifoldeb am y Gwasanaeth Tân ac Achub wedi'i ddatganoli i Lywodraeth Cynulliad Cymru. Yn unol â'r Ddeddf mae Llywodraeth y Cynulliad wedi llunio Fframwaith Cenedlaethol sy'n nodi blaenoriaethau ac amcanion ar gyfer yr Awdurdodau Tân ac Achub, ac sy'n cynnwys canllawiau i'w galluogi i gyflawni eu swyddogaethau.

Mae'r Fframwaith Cenedlaethol yn ei gwneud yn ofynnol i bob Awdurdod Tân ac Achub lunio cynllun lleihau risg sy'n canolbwyntio ar risgiau i'r gymuned a risgiau corfforaethol mewn modd holistaidd. Cynllun penodedig yw hwn sy'n nodi sut yr ydym yn rheoli risg yn ein hardal. Rhaid i'r amcanion sydd yn y cynllun lleihau risg fod yn gysylltiedig ag amcanion y Cynulliad i leihau marwolaethau ac anafiadau sy'n digwydd oherwydd tanau a gwrthdrawiadau traffig ffordd.

#### laith Pawb

Fis Chwefror 2003 cyhoeddodd Llywodraeth Cynulliad Cymru ddogfen dan y teitl 'laith Pawb', y cynllun gweithredu cenedlaethol cyntaf i greu Cymru gwirioneddol ddwyieithog. Yn ôl 'laith Pawb', "mae'r iaith Gymraeg yn rhan hanfodol ac oesol o hanes, diwylliant a gwedd cymdeithasol ein cenedl. Rhaid i ni barchu'r etifeddiaeth honno a gweithio i sicrhau nad yw'n cael ei cholli ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol." Mae'r Awdurdod yn cytuno â'r sylwadau hyn ac o'r farn bod gan ei Gynllun laith Gymraeg gyfraniad i'w wneud ar lefel leol tuag at wireddu'r nodau a'r amcanion a ddisgrifir yn 'laith Pawb.'

#### Rhaglen Cymru ar gyfer Gwella

Bydd yr Awdurdod yn sicrhau y bydd yr ymrwymadau a ddisgrifir yn y cynllun hwn yn cael eu hymgorffori yn ei Fframwaith Rheoli Perfformiad. Y nod fydd gwella'n barhaus y modd y darperir gwasanaethau cyhoeddus yn unol â'r egwyddorion sy'n llywio Rhaglen Cymru ar gyfer Gwella. Er mwyn deall a yw ei ymrwymadau'n diwallu anghenion y cyhoedd Cymraeg ei hiaith yng Nghanolbarth a Gorllewin Cymru neu beidio, bydd yr Awdurdod yn ymgynghori o dro i dro â'r cyhoedd, a hynny yn y Gymraeg a'r Saesneg, ynglŷn ag ansawdd ac amrediad y gwasanaethau cyfrwng Cymraeg.

Bydd yr Awdurdod yn cyhoeddi canlyniadau ei berfformiad pan fydd gofyn ac yn cymharu ansawdd y gwasanaethau a ddarperir drwy gyfrwng y Gymraeg a'r rhai a ddarperir drwy gyfrwng y Saesneg.

Bydd darparu gwasanaethau drwy gyfrwng y Gymraeg yn ystyriaeth yn ein hadolygiadau gwasanaeth.

### **Safon Cydraddoldeb ar gyfer Llywodraeth Leol yng Nghymru**

Offeryn yw'r Safon Cydraddoldeb ar gyfer Llywodraeth Leol yng Nghymru a luniwyd i gynorthwyo awdurdodau lleol yng Nghymru i brif-ffrydio eu dulliau o ddelio â chydraddoldeb wrth gynllunio a darparu gwasanaethau. Nod y Safon yw sicrhau bod pob awdurdod yn cymryd yr un camau wrth ddelio â'r iaith Gymraeg a materion cydraddoldeb o ran hil, rhyw ac anabled.

Mae'r Awdurdod yn ymrwymedig i weithio o fewn fframwaith y Safon Cydraddoldeb a chamu ymlaen drwy'r pum lefel sydd yn y fframwaith. Mae'r cynllun hwn yn elfen bwysig o waith yr Awdurdod yn y maes hwn gan ei fod yn anelu at amlygu'r pum syniad allweddol sy'n sail i'r pum lefel yn y Safon:

- mae'n rhan o bolisi cydraddoldeb ehangach yr Awdurdod;
- mae'n cynnwys ymrwymadau i asesu ac ymgynghori ynglŷn â pherfformiad yr Awdurdod o ran darparu gwasanaeth o'r un safon uchel yn y Gymraeg â'r Saesneg;
- mae'r cynllun gweithredu yn nodi amcanion a thargedau ar gyfer y safon o wasanaethau dwyieithog a ddarperir gan yr Awdurdod;
- mae'n disgrifio'r system sydd mewn lle i fonitro perfformiad yn y maes hwn;
- bydd canlyniadau'r broses monitro yn cael eu hadolygu er mwyn mesur llwyddiant, cyn rownd newydd o bennu targedau.

### **Yr Iaith Gymraeg a Chydraddoldeb**

Mae darparu gwasanaethau drwy gyfrwng y Gymraeg yn fater cyfle cyfartal, ac mae'r iaith yn rhan o'r agenda cydraddoldeb yng Nghymru.

Hefyd disgwylir i gyrff cyhoeddus hyrwyddo'r iaith a cheisio sicrhau twf yn y defnydd a wneir o'r iaith - mae hyn yn golygu mwy na diwallu anghenion siaradwyr Cymraeg; mae'n golygu gweithio i greu mwy o siaradwyr Cymraeg, yn ogystal ag annog y rhai sydd eisoes yn siarad yr iaith i wneud mwy o ddefnydd o'r gwasanaethau drwy gyfrwng y Gymraeg.

Hefyd, mae presenoldeb yr iaith - gweld y Gymraeg a chlywed y Gymraeg - mewn bywyd cyhoeddus yng Nghymru yn fater y dylai'r Awdurdod ei gyflwyno fel rhywbeth y gall pawb - siaradwyr Cymraeg a'r di-Gymraeg - fod yn hynod falch ohono.

## **1.4 Llwyddiannau a Sialensau Newydd**

Yn ystod oes Cynllun Iaith blaenorol yr Awdurdod, y prif lwyddiannau o ran darparu gwasanaethau drwy gyfrwng y Gymraeg oedd:

- Darparu pob gwybodaeth i'r cyhoedd yn ddwyieithog
- Clustnodi ymhle yn union y mae ein siaradwyr Gymraeg
- Hyfforddiant ar Ymwybyddiaeth o'r iaith Gymraeg
- Cyhoeddi Canllawiau ar gyfer gweithredu'r Cynllun
- Delwedd Gorfforaethol Ddwyieithog Gadarn
- Llythyr Newyddion Mewnol Dwyieithog
- Partneriaeth Risksmart
- Delwedd Ddwyieithog Gadarnhaol ym Mhencadlys y Gwasanaeth

Ymhlith y sialensau newydd sy'n wynebu'r Awdurdod o ran gweithredu'r cynllun hwn mae:

- Prif-ffrydio'r iaith Gymraeg.
- Sicrhau bod gweithdrefnau priodol yn eu lle ar gyfer trefniadau yn yr iaith Gymraeg mewn Cynlluniau Partneriaeth.
- Cynyddu nifer y staff sy'n gallu gweithio drwy gyfrwng y Gymraeg a gweithredu strategaeth sgiliau iaith.
- Gweithio ar y cyd gydag Awdurdodau Tân ac Achub Gogledd Cymru a De Cymru ar faterion yr iaith Gymraeg.

## 2 CYNLLUNIO A DARPARU GWASANAETHAU

### 2.1 Prif-ffrydio'r iaith Gymraeg

Fel gwasanaeth cyhoeddus mae gan yr Awdurdod rôl bwysig i'w chwarae yn y gwaith o ddatblygu'r iaith Gymraeg. Wrth gynllunio, darparu ac adolygu polisïau a gwasanaethau, rhaid i'r Awdurdod ystyried yr iaith Gymraeg a manteisio ar bob cyfle ddaw i gefnogi a hyrwyddo'r iaith, ac annog y staff ac aelodau'r cyhoedd i wneud mwy o ddefnydd o'r iaith. Fel hyn, gall yr Awdurdod brif-ffrydio'r iaith yn gynyddol yn ei bolisïau a'i wasanaethau.

Diffiniad y Llywodraeth o brif ffrydio'r iaith Gymraeg yw,

*“ystyried y Gymraeg ym mhob agwedd o’ch gwaith ac ym mhob peth yr ydych yn ei wneud, gyda’r nod o sicrhau bod pob cyfle yn cael ei gymryd i:*

- i. hyrwyddo a chefnogi'r iaith Gymraeg*
- ii. cyfrannu at weledigaeth y Llywodraeth o Gymru wir ddwyieithog*
- iii. cynllunio, darparu a gwerthuso gwasanaethau yn y Gymraeg a'r Saesneg”.*

Bydd yr Awdurdod yn asesu effaith pob polisi a menter newydd ar y defnydd a wneir o'r Gymraeg. Rhaid i bolisïau a mentrau newydd gydymffurfio â'r cynllun hwn - a dylai unrhyw wasanaethau newydd a gyflwynir fod yr un mor hygyrch ac ar gael yn hwylus yn y Gymraeg ag yn y Saesneg.

Dylai polisïau a mentrau newydd anelu at hyrwyddo a hwyluso'r defnydd o'r Gymraeg lle bynnag y bo hynny'n bosibl, er mwyn gweithredu'r egwyddor o drin y Gymraeg a'r Saesneg ar y sail eu bod yn gyfartal.

Mae'n gyfrifoldeb ar Gyfarwyddwyr, Penaethiaid Adran a Phenathiaid Sirol i sicrhau bod staff sy'n ymwneud â llunio polisïau yn ymwybodol o gynnwys y paragraffau uchod a'r nodau a ddisgrifir ynddynt ac y cymerir ystyriaeth lawn

ohonynt wrth gynllunio mentrau a pholisïau newydd.

Dylid ystyried yr egwyddor o drin y Gymraeg a'r Saesneg ar y sail eu bod yn gyfartal mor gynnar â phosibl yn y broses o gynllunio polisïau newydd. Dylid prif-ffrydio'r gofyniad i ddarparu gwasanaethau yn Gymraeg ac yn Saesneg gydol y broses o gynllunio a darparu gwasanaethau newydd a gwasanaethau sy'n bod eisoes.

Bydd yr Awdurdod yn ymgynghori ymlaen llaw â Bwrdd yr Iaith Gymraeg ynglŷn ag unrhyw gynigion fydd yn effeithio ar y Cynllun hwn, ac ni fydd yn newid y Cynllun heb gytundeb y Bwrdd.

Bydd y modd y darperir gwasanaethau yn Gymraeg yn cael ei ystyried yn ystod adolygiadau gwasanaeth a'r broses o gynllunio busnes. Mae cyfrifoldeb ar Gyfarwyddwyr, Penaethiaid Adran a Phenaethiaid Sirol i sicrhau bod staff yn ystyried yr angen am ddarparu gwasanaethau drwy gyfrwng y Gymraeg fel rhan o'r prosesau hyn.

Mae'r Awdurdod yn ymrwymedig i sicrhau bod staff ac ymgynghorwyr sy'n ymwneud â llunio polisïau yn ymwybodol o'r cynllun ac o gyfrifoldebau'r Awdurdod o dan y Ddeddf, a bod y mesurau a gynhwysir yn y cynllun yn cael eu cymhwyso i bolisïau a mentrau newydd pan roddir hwy mewn grym. Cam pwysig mewn prif-ffrydio'r Gymraeg yw sicrhau bod pob aelod o staff yn derbyn Hyfforddiant priodol ar Ymwybyddiaeth o'r Iaith Gymraeg. Mae Bwrdd yr Iaith Gymraeg ac eraill wedi diffinio Hyfforddiant Ymwybyddiaeth iaith fel:

“Hyfforddiant strwythuredig sy'n cyfleu moeseg a statws yr iaith, ac sy'n cynnig egwyddorion sylfaenol i unigolion sy'n byw yng Nghymru, neu sy'n gweithio i sefydliad sy'n cynnig gwasanaethau i'r cyhoedd yng Nghymru”.

Bydd yr Awdurdod felly yn ceisio datblygu ei hyfforddiant ar Ymwybyddiaeth iaith, a bydd elfennau'r hyfforddiant hwn yn gwbl gyson â'r canllawiau a gyhoeddwyd gan Fwrdd yr Iaith Gymraeg.

### **3 DELIO Â'R CYHOEDD SY'N SIARAD CYMRAEG**

#### **3.1 Darparu Gwasanaeth**

Wrth gyflwyno ei wasanaeth i'r cyhoedd, mae'r Awdurdod yn ymrwymedig i sicrhau y gall y cyhoedd nodi eu dewis iaith wrth ddelio â staff y Gwasanaeth.

Bydd yn gwneud hyn drwy:

- sicrhau delwedd ddwyieithog gadarn mewn derbynfeydd cyhoeddus
- bod yn flaenweithgar wrth gynghori'r cyhoedd
- sicrhau bod staff Cymraeg eu hiaith ar gael i helpu eraill lle bo angen neu lle gofynnir am hynny
- mabwysiadu gweithdrefnau a systemau, a amlinellir yn y cynllun, sy'n hwyluso darparu'r gwasanaeth yn yr iaith a ddewiswyd gan ddefnyddiwr y gwasanaeth
- cyflogi cyfieithwyr allanol proffesiynol

- annog staff i ddysgu Cymraeg

Bydd y Cyfarwyddwyr yn gwbl ymwybodol o ofynion y cynllun a bydd yn ddyletswydd arnynt i sicrhau bod pob un o'r gofynion yn cael eu rhoi ar waith yn eu hadrannau.

Lle nad yw'r gwasanaethau ar gael yn ddiymdroi drwy gyfrwng y Gymraeg darperir ar eu cyfer yn yr amserlen ar gyfer gweithredu a gaiff ei llunio yn ôl yr anghenion sy'n flaenoriaeth a'r galw.

Mae'r Awdurdod yn ymrwymedig i annog a chefnogi'r defnydd o'r Gymraeg yn ei berthynas â chyrff cyhoeddus eraill, er enghraifft wrth gyflwyno addysg ar ddiogelwch rhag tân yn yr ysgolion ac wrth gynnal cyfarfodydd ymgynghori â chynrychiolwyr cynghorau cymuned, ac wrth weithio mewn partneriaeth.

### **3.2 Partneriaethau**

Mae'r Awdurdod yn gweithio mewn partneriaeth â chyrff cyhoeddus, sefydliadau o'r sector gwirfoddol ac asiantaethau eraill, ac yn gweithio ar sawl lefel sy'n amrywio o'r ffocws strategol i ddarparu gwasanaethau rheng flaen.

- Pan fo'r Awdurdod yn arwain partneriaeth, yn strategol ac yn ariannol, bydd yn sicrhau bod y ddarpariaeth gyhoeddus yn cydymffurfio â'r Cynllun Iaith Gymraeg.
- Pan fo'r Awdurdod yn ymuno â phartneriaeth y mae corff gwasanaeth cyhoeddus arall yn arwain, bydd mewnbyn yr Awdurdod i'r bartneriaeth yn cydymffurfio â Chynllun Iaith Gymraeg y corff hwnnw, a bydd yr Awdurdod yn annog y partion eraill i gydymffurfio.
- Pan fo'r Awdurdod yn bartner mewn consortiwm, bydd yn annog y consortiwm i fabwysiadu polisi dwyieithog. Wrth weithredu'n gyhoeddus yn enw'r consortiwm, bydd yr Awdurdod yn gweithredu yn unol â'i Gynllun Iaith Gymraeg.
- Pan fo'r Awdurdod yn ymuno â neu'n ffurfio partneriaeth, bydd yn gofyn i'r darpar bartneriaid am eu Cynlluniau Iaith, polisiau iaith neu'r modd y maent yn bwriadu gweithredu yn ddwyieithog. Fel rhan o bob partneriaeth, bydd yr Awdurdod yn cynnig cyngor a chymorth i'r partion eraill sy'n rhan o'r bartneriaeth.

Bydd yr Awdurdod yn paratoi canllawiau i swyddogion sy'n ymuno mewn partneriaeth sy'n egluro cyfrifoldebau'r Awdurdod yn unol â'r Cynllun Iaith ac yn nodi sut y dylai swyddog fynd ati i briodoli gofynion y cynllun iaith i waith y bartneriaeth.

### **3.3 Safonau Ansawdd**

Mae'r Awdurdod yn ymrwymedig i gyflwyno gwasanaeth yr un mor safonol yn y Gymraeg ag yn Saesneg yn yr holl fannau daearyddol y mae'n eu gwasanaethu, a bydd yn hysbysu'r cyhoedd am y bwriad hwn mewn dogfennau lle gwneir datganiadau ar gyfle cyfartal a chyflwyno gwasanaeth.

### **Darpariaeth Cymraeg Ysgrifenedig**

O ran gwasanaethau ysgrifenedig, bydd yr Awdurdod yn cael cyfieithwyr allanol y mae disgwyl iddynt fod yn aelodau o Gymdeithas Cyfieithwyr Cymru neu'n gweithio tuag at aelodaeth, i wneud y gwaith cyfieithu.

Bydd yr Awdurdod yn sicrhau y bydd meddalwedd, llyfrau cyfeirio a hyfforddiant ar gael i'r staff sy'n gweithio'n ddwyieithog.

Bydd yr Awdurdod yn mabwysiadu polisi adnoddau dynol i ddatblygu sgiliau dwyieithog y gweithlu gan gynnwys gweithdrefnau cymorth ar gyfer staff dwyieithog, ac yn parhau i ddatblygu ei strategaeth sgiliau ieithyddol.

Bydd yr Awdurdod yn gweithio gydag Awdurdod Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru, Awdurdod Tân ac Achub De Cymru, Bwrdd yr Iaith Gymraeg a Llywodraeth Cynulliad Cymru i sicrhau cysondeb o ran terminoleg Tân ac Achub yn Gymraeg.

### **Gwasanaethau Cyfathrebu ar Lafar**

Bydd gwasanaeth dwyieithog ar gael yn y dderbynfa i ymwelwyr a'r rhai sy'n galw ar y ffôn ym Mhencadlys y Gwasanaeth ac ym mhencadlys Ardal Reoli Sirol Abertawe a'r Pencadlys Lleihau Risg Cymunedol. Bydd y gallu i siarad Gymraeg yn sgil hanfodol felly i'r swyddi rheng flaen hynny.

Bydd pob aelod arall o staff yn yr Ardaloedd Rheoli Sirol yn cael hyfforddiant rheolaidd a pharhaus ar ymwybyddiaeth o'r iaith Gymraeg. Yn y derbynfeydd bydd yr Awdurdod yn cynnal delwedd sy'n annog defnyddio'r Gymraeg drwy fabwysiadu'r cynllun "Iaith Gwaith" ym mhob lleoliad.

Bydd yr Awdurdod yn ceisio sicrhau bod pob derbynfa gyhoeddus yn cyfleu delwedd gadarnhaol a chroesawgar.

### **3.4 Technoleg Gwybodaeth**

Bydd yr Awdurdod yn gweithio tuag at fabwysiadu Safonau E-lywodraeth Bwrdd yr Iaith Gymraeg ac yn cytuno â Bwrdd yr Iaith Gymraeg y dylid datblygu systemau TG o ansawdd uchel i gefnogi'r defnydd o'r Gymraeg. Bydd yr Awdurdod yn ystyried y goblygiadau ar gyfer y Gwasanaeth fel y'u nodir yn y rhestr o gamau gweithredu.

### **3.5 Gohebiaeth**

Mae'r Awdurdod yn croesawu gohebiaeth drwy gyfrwng y Gymraeg a'r Saesneg fel ei gilydd ac mae'n ymrwymedig i sicrhau:

na fydd gohebu drwy gyfrwng y Gymraeg yn arwain at oedi.

y bydd yr holl lythyrau a dderbynnir yn Gymraeg yn derbyn ateb yn Gymraeg wedi ei lofnodi.

y bydd yr ohebiaeth yn Gymraeg ar ôl siarad wyneb yn wyneb neu dros y ffôn yn Gymraeg.

y bydd gohebiaeth yn cael ei chychwyn yn Gymraeg â'r rheini y mae'n wybyddus

ei bod yn well ganddynt ohebu drwy gyfrwng y Gymraeg.  
y bydd yr holl wybodaeth a ddsberthir i'r cyhoedd ac a gaiff ei dangos at sylw'r cyhoedd yn ddwyieithog neu mewn ffurfiau Cymraeg a Saesneg ar wahân.  
y bydd yr holl gylchlythyrau a llythyrau safonol a gyhoeddir i'r cyhoedd yn ddwyieithog.  
y bydd cyfarwyddyd ar gael i'r holl adrannau/lleoliadau ynghylch delio â gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg, fydd yn cynnwys cyngor ynghylch cyfleusterau cyfieithu.  
cronfa ddata o aelodau'r cyhoedd y gwyddys eu bod yn dymuno gohebu drwy gyfrwng y Gymraeg - bydd y gronfa hon ar gael i'r staff ar y System Gwybodaeth Fusnes, a bydd yn cael ei diweddarau'n rheolaidd.

Er mwyn sicrhau bod y staff yn ymwybodol o'r trefniadau hyn, disgrifir hwy yn ystod sesiynau sefydlu i aelodau newydd o staff. Bydd y trefniadau hefyd wedi'u cynnwys mewn canllawiau a ddsberthir i'r staff, ac ar gael ar y Fewnrwyd Gwybodaeth Fusnes.

### **3.6 Cyfathrebu dros y Ffôn**

Mae'r Awdurdod yn ymrwymedig i groesawu galwadau ffôn drwy gyfrwng y Gymraeg a'r Saesneg i'r holl swyddfeydd/gorsafoedd a bydd yn sicrhau:

y bydd pob swydd derbynnydd ym Mhencadlys y Gwasanaeth ac ym mhencadlys Ardal Reoli Sirol Abertawe ac ym Mhencadlys Lleihau Risg Cymunedol yn swyddi lle mae'r Gymraeg yn hanfodol.  
Bydd pob derbynnydd ym mhob un o'r canolfannau gweinyddol a phencadlys yr ardaloedd rheoli sirol yn derbyn hyfforddiant rheolaidd ar y darpariaethau a gynhwysir yn y Cynllun.  
yn yr Ardaloedd Rheoli Sirol bydd y cyfarchiad ar y ffôn yn ddwyieithog, a darperir hyfforddiant ynghyd â hyfforddiant gloywi i dderbynnyddion di-gymraeg.  
os na all y derbynnydd siarad Cymraeg, bod pobl sy'n dymuno parhau â'r sgwrs yn Gymraeg yn cael eu trosglwyddo i staff Cymraeg eu hiaith.  
y bydd cyfeirlyfr mewnol o staff sy'n medru siarad Cymraeg ar gael ar y System Gwybodaeth Fusnes at ddefnydd staff y Gwasanaeth.  
lle nad oes siaradwyr Cymraeg ar gael, cymerir enw a rhif ffôn y galwr a dywedir wrtho y bydd aelod Cymraeg o'r staff yn dychwelyd eu galwad cyn pen hanner awr.  
y bydd cyfarchiad dwyieithog yn cael ei ddefnyddio ar bost llais a pheiriannau ateb siaradwyr Cymraeg.  
y bydd aelodau o staff fydd yn ateb y ffôn yn cael eu hannog i ddefnyddio cyfarchiad dwyieithog safonol.

### **3.7 Cyfarfodydd Cyhoeddus Ffurfiol**

Pan gynhelir cyfarfodydd cyhoeddus, mae'r Awdurdod yn ymrwymedig i sicrhau bod croeso i'r sawl sy'n bresennol gyfrannu drwy gyfrwng y Gymraeg neu'r Saesneg.

Bydd hysbysiadau sy'n cyhoeddi cyfarfodydd cyhoeddus yn rhai dwyieithog a byddant yn ei gwneud yn glir fod croeso i'r cyhoedd gyfrannu yn Gymraeg neu yn Saesneg.

Gwahoddir aelodau o'r cyhoedd i roi gwybod i'r Awdurdod ymlaen llaw pa un yw eu dewis iaith fel y gellir gwneud trefniadau i ddarparu gwasanaeth cyfieithu ar y pryd. Bydd yr Awdurdod yn ceisio'i orau i alluogi'r trefniadau hyn gael eu gwneud heb fawr o rybudd, ond gorau oll os gellir rhoi o leiaf ddau ddiwrnod gwaith o rybudd.

Bydd gweithdrefnau a chanllawiau ar gael i sicrhau y bydd offer cyfieithu ar y pryd yn cael ei ystyried wrth wneud yr holl drefniadau ymarferol cyn cynnal cyfarfod, ynghyd â rôl a chyfrifoldebau trefnydd cyfarfodydd.

Bydd canllawiau hefyd yn cael eu datblygu fydd yn amlinellu rôl y Cadeirydd wrth hwyluso'r defnydd o'r Gymraeg, ffactorau i'w hystyried wrth ddewis siaradwyr mewn cyfarfodydd neu ddigwyddiadau dwyieithog, a chanllawiau ar sut i ddefnyddio offer cyfieithu.

Pan yw aelodau o'r cyhoedd yn nodi eu bod yn dymuno cyfrannu drwy gyfrwng yr iaith Gymraeg, bydd o leiaf rhan o'r cyflwyniadau yn ddwyieithog a chymerir camau i sicrhau fod Cymraeg yn cael ei siarad yn y cyfarfodydd yn anffurfiol wrth groesawu aelodau o'r cyhoedd.

Fodd bynnag, bydd yr Awdurdod, yn ychwanegol i'r uchod, yn sicrhau bod aelod o staff a all siarad Cymraeg yn bresennol ym mhob cyfarfod cyhoeddus.

### **3.8 Cyfarfodydd 'Eraill' gyda'r cyhoedd**

Mae'r Awdurdod yn ymrwymedig i sicrhau y bydd yn gwireddu'r egwyddor o gydraddoldeb a nodir yn y Ddeddf ac mewn perthynas â'i holl gyfarfodydd gyda'r cyhoedd.

Bydd yr Awdurdod yn hysbysu'r cyhoedd am eu hawl i ddewis pa iaith i'w defnyddio cyn unrhyw gyfarfod, er enghraifft, Archwiliadau Diogelwch Tân yn y Cartref, digwyddiadau Criw Hanfodol, a thrwy hynny sicrhau y gellir gwneud darpariaeth briodol.

Wrth drefnu cyfarfod gydag aelod o'r cyhoedd, holir beth yw dewis iaith yr aelod dan sylw. Os mai'r Gymraeg yw'r dewis iaith, bydd yr Awdurdod yn sicrhau mai swyddog Cymraeg fydd yn cyfarfod â'r cyhoedd.

Os bydd y cyfarfod yn digwydd heb ddigon o amser i drefnu swyddog Cymraeg i fod yn bresennol, yna bydd y client yn cael dewis:

Trefnu cyfarfod arall gyda Swyddog Cymraeg  
Cael trydydd parti yn bresennol sy'n siarad Cymraeg  
Cynnal y drafodaeth yn Saesneg

Yr un fydd yr egwyddorion a ddilyniwr wrth gynnal cyfarfodydd mewn adeiladau allanol a chyfarfodydd a gynhelir mewn cartref aelod o'r cyhoedd.

Darperir canllawiau ysgrifenedig ar sicrhau y dilyniwr gweithdrefnau priodol.

Bydd staff sy'n medru siarad Cymraeg yn gwneud hynny'n glir i'r cyhoedd drwy gymryd rhan yn y Cynllun Iaith Gwaith fydd yn nodi'r ffaith eu bod yn siarad Cymraeg.

### **3.9 Gwasanaethau a Ddarperir gan Bartïon Eraill**

Mae'r Awdurdod yn gwneud trefniadau gyda thrydydd parti i ddarparu gwasanaethau yn uniongyrchol i'r cyhoedd. Er mwyn sicrhau bod disgwyliadau'r Awdurdod yn glir, gweithredir y mesurau canlynol:

Darparu gweithdrefnau ysgrifenedig i'r staff ar gyfer delio ag asiantau a chontractwyr, a phrosesau i sicrhau bod y staff yn cadw at ofynion y cynllun.

Monitro'n benodol bod asiantau a chontractwyr yn gweithredu'r agweddau perthnasol o'r cynllun iaith Gymraeg.

Cael adroddiadau perfformiad rheolaidd gan gontractwyr ac asiantau.

## **4. SWYDDOGAETHAU GWEITHREDOL**

### **4.1 Ymateb Brys y Gwasanaeth Tân ac Achub**

Yn yr holl swyddogaethau gweithredol brys lle mae'r Gwasanaeth yn gyfrifol am gyflwyno gwasanaethau brys i'r cymunedau yng Nghanolbarth a Gorllewin Cymru, Saesneg fydd yr iaith swyddogol.

Mae natur gwaith diffoddwr tân, gyda'r peryglon sydd ynghlwm wrth hynny i'w ddiogelwch ei hun a'i gyfrifoldeb am ddiogelwch eraill, yn golygu bod yn rhaid wrth ddisgyblaeth gryn dipyn yn fwy llym nag sydd ei hangen yn y rhan fwyaf o alwedigaethau. Mae'n hanfodol bwysig bod un iaith yn cael ei defnyddio i roi cyfarwyddiadau clir, cryno a diamwys er mwyn cyflwyno gwasanaeth effeithiol i'r cyhoedd. Mae diogelwch y staff a'r cyhoedd o'r pwys pennaf ac mae'r Awdurdod o'r farn bod y polisi iaith a nodir uchod, tra'n ymdrechu i wireddu'r egwyddor o gydraddoldeb yn llawn, yn briodol yn yr amgylchiadau hyn.

Yn hanesyddol felly, ni fu llawer o reidrwydd i ystyried gallu ieithyddol y criwiau gweithredol. Serch hynny, ers i Ddeddf Gwasanaethau Tân ac Achub 2004 ddod i rym, ychwanegwyd at rôl y diffoddwr tân i gynnwys gwaith cymunedol ar ddiogelwch rhag tân fel darpariaeth statudol. Mae'n ofynnol bellach i ddiffoddwyr tân gyflwyno diogelwch cymunedol i'r gymuned ac mae'n hanfodol felly bod y gwasanaethau hyn yn cael eu cyflwyno yn newis iaith y sawl sy'n derbyn y gwasanaeth.

Mae'r Adran Adnoddau Dynol yn ystyried gallu ieithyddol y criwiau yn awr pan benodir diffoddwyr tân newydd i swyddi er mwyn sicrhau y gwneir darpariaeth briodol, a bydd hyn yn elfen graidd o'r Strategaeth Sgiliau Ieithyddol.

### **4.2 Gwasanaethau'r Ystafell Reoli**

Yn Ystafell Reoli Gwasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru, bydd yr Awdurdod yn sicrhau bod 50% o'r staff ar bob gwylfa yn ddwyieithog.

Mae ymgyfarwyddo ag enwau lleoedd ledled y Gwasanaeth yn rhan o raglen hyfforddiant gynhwysfawr a roddir i staff yr Ystafell Reoli.

### **4.3 Lleihau Risg Cymunedol**

Mae'r Awdurdod yn ymrwymedig i sicrhau bod yr egwyddor o gydraddoldeb yn cael ei gwireddu wrth gyflwyno Gwasanaethau Lleihau Risg Cymunedol, gan fod yr Awdurdod yn gweithio i leihau nifer y tanau, sefyllfaoedd eraill o argyfwng a'r marwolaethau, yr anafiadau a'r difrod i eiddo a achosir ganddynt drwy ddiogelu a hyrwyddo buddiannau diogelwch cymunedol y bobl sy'n byw, yn gweithio neu'n ymweld ag ardal Canolbarth a Gorllewin Cymru.

#### **Diogelwch Tân Deddfwriaethol**

Darperir cyngor ar Ddiogelwch Tân Deddfwriaethol gan gnewyllyn o swyddogion sy'n arbenigo yn y maes diogelwch rhag tân ac a leolir yn yr Ardaloedd Rheoli Sirol sy'n darparu cyngor cynhwysfawr ynghylch diogelwch rhag tân, yn enwedig o ran Gorchymyn Diwygio Rheoleiddio (diogelwch tân) 2005.

Bydd y Swyddogion Diogelwch Tân Deddfwriaethol yn gwireddu'r egwyddor o gydraddoldeb drwy sicrhau:

bod taflenni Gwybodaeth am Ddiogelwch rhag Tân ar gael ac yn cael eu cynnig i bawb yn Gymraeg a Saesneg fel dogfennau ar wahân neu yn ddwyieithog.

bod y gwasanaeth cyngori am Ddiogelwch rhag Tân ar gael drwy gyfrwng y Gymraeg a'r Saesneg.

bod ymweliadau safle at ddibenion arolygu ar gael yn Gymraeg ac yn Saesneg.

#### **Diogelwch Cymunedol**

Yn yr un modd, darperir cyngor ar ddiogelwch cymunedol gan gnewyllyn o swyddogion diogelwch cymunedol arbenigol a staff gweithredol yn yr Ardaloedd Rheoli Sirol ac yn y Pencadlys Lleihau Risg Cymunedol sy'n cynnig gwasanaeth cynhwysfawr o ddiogelwch cymunedol. Mae Deddf Gwasanaethau Tân ac Achub 2004 yn gosod dyletswydd statudol ar bob awdurdod tân ac achub i hyrwyddo diogelwch cymunedol. Bydd swyddogion diogelwch cymunedol yn gweithredu'r egwyddor o gydraddoldeb drwy sicrhau, er enghraifft, bod pob gwybodaeth cyhoeddusrwydd am ddiogelwch rhag tân a deunyddiau addysg yn cael eu cynhyrchu yn ddwyieithog neu drwy gyfrwng y Gymraeg a'r Saesneg.

Cynigir pob gwasanaeth i'r cyhoedd, megis Archwiliadau Diogelwch rhag Tân yn y Cartref, Criw Hanfodol, cynllun FACE, a Diffoddwyr Tân Ifanc, yn eu dewis iaith.

## **5. WYNEB CYHOEDDUS YR AWDURDOD TÂN**

### **5.1 Hunaniaeth Gorfforaethol**

Mae'r Awdurdod wedi mabwysiadu hunaniaeth gorfforaethol ddwyieithog gyflawn ac mae'n gwbl ymrwymedig i gynnal yr hunaniaeth ddwyieithog hon ym mhob rhan o ardal y Gwasanaeth.

Mae Awdurdod Tân Canolbarth a Gorllewin Cymru wedi mabwysiadu enw a chyfeiriad dwyieithog sydd bob amser yn cael ei gyhoeddi yn y cyfryw fodd ar bapur pennawd, slipiau cyfarch, papur ffacs, cardiau busnes, bathodynau ar lifrai neu ar unrhyw ran o'r lifrai lle dangosir enw'r Gwasanaeth Tân ac Achub, ac ar fathodynau adnabod a cherbydau. Bydd y term 'TÂN' yn ymddangos yn ddwyieithog pan osodir y term ar gerbydau/peiriannau newydd, cyn belled â bod hynny'n gyson â darpariaethau Rheoliadau Traffig Ffyrdd priodol. Bydd arwyddion ar safleoedd ac adeiladau'r Gwasanaeth Tân ac Achub ac unrhyw nwyddau neu ddeunyddiau sydd i'w rhoi i'r cyhoedd, yn ddwyieithog. Bydd yr holl fathodynau adnabod hefyd yn ddwyieithog.

Bydd y ffurf Cymraeg bob amser yn ymddangos ar bob dogfen yn uchaf ac i'r chwith.

## **5.2 Arwyddion**

Mae'r Awdurdod Tân yn ymrwymedig i sicrhau bod:

arwyddion o fewn ffiniau eiddo'r Gwasanaeth Tân ac Achub, gan gynnwys manau lle mae'r cyhoedd yn cael mynediad iddynt, yn ddwyieithog.

pob arwydd arall y mae'r Gwasanaeth Tân ac Achub yn gyfrifol amdanynt yn ddwyieithog.

maint, safon, eglurder ac amlygrwydd y geiriau yn gyfartal yn achos arwyddion Cymraeg a Saesneg fel ei gilydd.

y fersiwn Gymraeg yn ymddangos yn uchaf ac i'r chwith ar yr holl arwyddion dwyieithog.

## **5.3 Cyhoeddiadau**

Mae'r Awdurdod yn ymrwymedig i sicrhau:

bod pob deunydd ar gyfer y cyhoedd, er enghraifft, y Cynllun Lleihau Risg, yr Adroddiad Blynyddol, gwybodaeth Gofal Cwsmer, gweithdrefnau Gwneud Cwyn, Gwahoddiadau, Poster, Derbyneb, Anfonebau, Disgrifiadau Swydd, Manylebau Person, yn cael eu cyhoeddi'n ddwyieithog gyda rhagdybiaeth o blaid dogfennau unigol dwyieithog yn hytrach na fersiynau Cymraeg a Saesneg ar wahân.

ar yr adegau prin pan gyhoeddir fersiynau Cymraeg a Saesneg ar wahân, eu bod yn cael eu cyhoeddi a'u dosbarthu yr un pryd a byddant yr un mor hawdd i gael gafael arnynt.

pan gyhoeddir dogfennau dwyieithog â phris arnynt, na fydd y pris yn uwch na fersiwn uniaith o'r un ddogfen.

na fydd pris fersiwn Cymraeg o ddogfen yn uwch na phris y fersiwn Saesneg.

y bydd cyfarwyddiadau ysgrifenedig ar gael i staff sy'n paratoi dogfennau ar gyfer y cyhoedd.

pan benderfynir cyhoeddi dogfennau ar wahân, bydd y trefniadau ar gyfer cynhyrchu'r ddau gyhoeddiad yn gyfrifoldeb y swyddog sydd wedi llunio'r ddogfen.

disgwylir i staff, ymgynghorwyr, argraffwyr a chyfieithwyr weithio o fewn y canllawiau a baratowyd gan Fwrdd yr Iaith Gymraeg ar ddylunio dwyieithog, ynghyd â'r canllawiau a baratowyd gan Awdurdod Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru ar gyfer delio â hunaniaeth gorfforaethol yr Awdurdod.

Bydd pob dogfen a gyhoeddir yn cael ei chyfieithu a'i phrawf-ddarllen gan gyfieithwyr proffesiynol neu staff y Gwasanaeth Tân ac Achub sydd wedi derbyn hyfforddiant.

#### **5.4 Ffurflenni**

Mae'r Awdurdod yn ymrwymedig i sicrhau:

- y bydd yr holl ffurflenni megis "Beth nesaf " a deunyddiau esboniadol megis Taflenni Gwybodaeth am Ddiogelwch rhag Tân ar gael ac yn cael eu cynnig i bawb yn Gymraeg a Saesneg fel dogfennau ar wahân neu yn ddwyieithog.
- lle bo ffurflenni Cymraeg a Saesneg yn cael eu cyhoeddi ar wahân, y byddant yn cael eu cyflwyno yr un pryd, y byddant yr un mor hwylus i'w cael yn yr holl fannau dosbarthu ac y byddant yn cael eu dosbarthu gyda'i gilydd drwy'r post neu dros y cownter. Bydd y dogfennau yn cynnwys neges sy'n cadarnhau bod y ffurflen ar gael hefyd yn yr iaith arall.
- bod yr holl ddeunyddiau eraill a gyhoeddir ar gyfer y cyhoedd hefyd yn ymddangos yn ddwyieithog a bydd yn cynnwys eitemau fel gwahoddiadau, posteri, sieciau, trwyddedau, cardiau, newyddion, amserlenni, derbynebau, anfonebau a mapiau.
- bydd yr Awdurdod yn ffurfio polisi o ddefnyddio Cymraeg syml ar ffurflenni.

#### **5.5 Cysylltiadau â'r Wasg a'r Cyfryngau**

Mae'r Awdurdod yn cydnabod bod datganiadau swyddogol a hysbysiadau i'r wasg ac i'r cyfryngau yn rhan hanfodol o wyneb cyhoeddus y Gwasanaeth Tân ac Achub a'i fod yn ddull allweddol o gyfathrebu â'r cyhoedd.

Mae'r Awdurdod felly yn ymrwymedig i sicrhau bod datganiadau a hysbysiadau i'r wasg a'r cyfryngau yn ddwyieithog a bod yr holl gyfweiliadau a roddir i'r wasg a'r cyfryngau Cymraeg yn cael eu rhoi gan staff sy'n siarad Cymraeg.

## 5.6 Gweithgareddau Hysbysebu a Chyhoedduswydd

Mae'r Awdurdod yn ymrwymedig i sicrhau y bydd:

- deunyddiau hysbysebu a chyhoedduswydd, gan gynnwys fideos a thapiau sain neu ddeunyddiau a gynhyrchir i hyrwyddo, rhoi cyhoedduswydd neu egluro cynlluniau, polisiau, gweithdrefnau, deddfwriaeth neu wasanaethau eraill y Gwasanaeth Tân ac Achub yn cael eu cynhyrchu yn Gymraeg a Saesneg.
- unrhyw ymgyrchoedd hysbysebu drwy gyfrwng y wasg, y cyfryngau neu bosteri yn cael eu cynnal yn Gymraeg a Saesneg.
- unrhyw arolygon cyhoeddus a dulliau ymateb a gynhelir gan y Gwasanaeth Tân ac Achub yn ddwyieithog.
- yr holl arddangosfeydd a stondinau gwybodaeth i'r cyhoedd yn ddwyieithog.
- ymgyrchoedd cyhoedduswydd a marchnata yn cael eu cynnal drwy gyfrwng y Gymraeg a'r Saesneg.
- yr holl negeseuon electronig a'r holl negeseuon ar fyrddau gwybodaeth yn ymddangos yn ddwyieithog.
- gwybodaeth i'r cyhoedd yn cael ei chynhyrchu yn ddwyieithog.
- yr holl weithgareddau cyhoeddus yn cael eu cynnal yn ddwyieithog, megis cynadleddau, seminarau.
- rhoddir ystyriaeth lawn i'r modd y gall yr Awdurdod ddefnyddio'r wasg Gymraeg ei hiaith a'r papurau bro.

## 5.7 Ymgynghori

Bydd pob ymgynghoriad cyhoeddus a wneir gan yr Awdurdod yn cael ei gynnal yn ddwyieithog neu yn Gymraeg neu'r Saesneg, yn ôl dewis iaith y sawl yr ymgynghorir ag ef/hwy.

Mae hyn yn cynnwys ymgynghori â rhanddeiliaid allanol e.e. preswylwyr, defnyddwyr y gwasanaeth, busnesau, mudiadau gwirfoddol, sefydliadau partner, Cynghorau Tref a Chymuned.

Lle na wyddys pa iaith yw'r dewis iaith, bydd holiaduron, dogfennau ymgynghori a gwybodaeth berthynol yn cael eu cyhoeddi yn ddwyieithog ac yr un mor hwylus i'r sawl yr ymgynghorir â hwy gael gafael arnynt.

Hefyd bydd rhanddeiliaid yn cael y dewis o gymryd rhan mewn cyfweiliadau, grwpiau trafod neu fforymau rhyngweithiol yn Saesneg neu yn Gymraeg.

Wrth gynllunio ymgynghori, ystyrir a ddylid ymgynghori â siaradwyr Cymraeg neu siaradwyr Saesneg fel grŵp targed penodol.

## **5.8 Hysbysiadau Swydddogol a Chyhoeddus, Hysbysebu Recriwtio Staff**

Mae'r Awdurdod yn ymrwymedig i:

sicrhau bod yr holl hysbysiadau swydddogol, hysbysiadau cyhoeddus a hysbysebion recriwtio yn cael eu cyhoeddi yn ddwyieithog ac yn gyfartal o ran ffurf, maint, ansawdd, eglurder ac amlygrwydd. Bydd y Gymraeg yn ymddangos yn uchaf ac i'r chwith.

Ile bernir bod y Gymraeg yn hanfodol ar gyfer swydd neilltuol, bydd hysbysebion Cymraeg yn unig yn cael eu cyhoeddi yn y wasg Gymraeg a byddant yn cael eu cyhoeddi fel hysbysebion Cymraeg yn unig yn y wasg Saesneg yng Nghymru gyda datganiad egluro yn Saesneg sy'n esbonio diben yr hysbyseb. Os na fydd pobl gyda'r cymwysterau priodol wedi ymgeisio, bydd y swydd dan sylw yn cael ei hail-hysbysebu yn Saesneg gan nodi y bydd gofyn i'r ymgeisydd llwyddiannus ddysgu Cymraeg.

Mewn swyddi lle mae'r Gymraeg yn ddymunol, bydd yr hysbyseb yn ymddangos yn ddwyieithog yn y wasg Saesneg yng Nghymru.

Croesewir ceisiadau gan siaradwyr Cymraeg drwy hysbysebu pob swydd yn ddwyieithog ac mewn cyhoeddiadau Saesneg a argreffir yng Nghymru.

Bydd swyddi a hysbysebir mewn cylchgronau a chyfnodolion a gyhoeddir y tu allan i Gymru ond sy'n cael eu dosbarthu ledled y Deyrnas Unedig, yn cael eu hysbysebu yn ddwyieithog.

## **6.0 SGILIAU IEITHYDDOL, STRATEGAETH A HYFFORDDIANT**

### **6.1 Staffio**

Mae'r Awdurdod yn ymrwymedig i sicrhau:

- y bydd gweithleoedd sydd â chyswllt â'r cyhoedd yn ceisio cael digon o siaradwyr Cymraeg sydd â'r sgiliau priodol er mwyn galluogi'r gweithleoedd hynny i ddarparu gwasanaeth cyflawn drwy gyfrwng y Gymraeg.
- y bydd aelodau o'r cyhoedd sydd am gysylltu â staff uwch yn medru cynnal eu busnes drwy gyfrwng y Gymraeg neu'r Saesneg.
- mae'r gweithleoedd yn cynnwys 57 gorsaf, Pencadlys y Gwasanaeth Tân ac Achub, pencadlys Ardal Reoli Sirol Abertawe a'r Pencadlys Lleihau Risg Cymunedol, Pencadlys Ceredigion, Pencadlys Ardal Reoli Sirol Sir Benfro, Pencadlys Ardal Reoli Sirol Powys, Pencadlys Ardal Reoli Sirol Castell-nedd Port Talbot, Pencadlys Ardal Reoli Sirol Sir Gaerfyrddin.
- y rhoddir ystyriaeth barhaus tymor hir i'r modd y bydd y Gwasanaeth Tân ac Achub yn sicrhau bod gwasanaeth llawn i gael ei ddarparu drwy gyfrwng y Gymraeg, waeth beth fo'r gwahaniaethau ieithyddol yn y gwahanol weithleoedd.

- y bydd y Gwasanaeth Tân ac Achub yn clustnodi, mewn dull gwrthrychol, y gweithleoedd a'r swyddi hynny lle mae'r gallu i siarad ac ysgrifennu Cymraeg yn sgil hanfodol a'r rhai lle mae'n ddymunol, ynghyd â'r lefel o fedruswydd sydd ei angen.
- y bydd disgrifiadau tîm priodol, disgrifiadau swydd a manylebau person yn cael eu paratoi fydd yn amlygu'r gofynion ym mhob gweithle, a bydd strategaeth staffio ieithyddol yn cael ei pharatoi i wireddu hyn. Wrth ystyried gofynion y swyddi o ran sgiliau'r iaith Gymraeg, cymerir y ffactorau canlynol i ystyriaeth : sgiliau sy'n benodol i'r swydd, sgiliau sy'n ofynnol gan yr unigolyn, ffactorau diwylliannol ac amgylcheddol sy'n gysylltiedig â natur y swydd.
- y bydd yr archwiliad o'r sgiliau ieithyddol yn cael ei adolygu i bennu nifer ac adran/gorsaf y siaradwyr Cymraeg a'r sawl sy'n dysgu Cymraeg yn y Gwasanaeth Tân ac Achub ynghyd â medruswydd a hyder y staff o ran siarad ac ysgrifennu Cymraeg.
- y bydd yn annog ac yn rhoi cefnogaeth frwd i'r staff i ddysgu Cymraeg a bydd yn rhoi'r aelodau hynny o'r staff sy'n dysgu Cymraeg mewn swyddi lle bernir bod y gallu i siarad Cymraeg yn hanfodol, lle bynnag y bo hynny'n ymarferol.
- y bydd pob aelod o staff sy'n gyfrifol am recriwtio yn gweithredu'r strategaeth staffio ieithyddol lle mae'r blaenoriaethau yn cael eu disgrifio, a bydd yn monitro'r camau a gymerir.
- y cymerir camau i ddatrys y broblem os bydd nifer y staff dwyieithog yn lleihau lle mae angen staff dwyieithog i sicrhau ein bod yn parhau i gydymffurfio â pholisi iaith yr Awdurdod.

## 6.2 Dysgu'r Gymraeg

Mae'r Awdurdod yn ymrwymedig i sicrhau:

- bod yr aelodau presennol o'r staff sydd am ddysgu Cymraeg yn cael anogaeth a chefnogaeth i wneud hynny, a rhoddir blaenoriaeth o ran adnoddau i'r rheini sy'n dod i gysylltiad â'r cyhoedd yn aml.
- y rhoddir ystyriaeth gefnogol i bob cais oddi wrth staff am hyfforddiant a datblygiad unigol, o fewn gofynion y swyddi. Bydd hyn yn arbennig o berthnasol i unigolion sy'n dymuno dysgu Cymraeg a rhoddir ystyriaeth gefnogol i geisiadau am ryddhau gweithwyr yn ystod oriau gwaith, yn amodol ar ofynion y gwasanaeth, yn unol â phob math arall o hyfforddiant mewn swydd.
- bod rhaglenni dysgu/hyfforddi sy'n canolbwyntio ar weithleoedd a swyddi unigol yn cael eu trefnu ar gyfer y rheini y mae'n ofynnol eu bod yn siarad Cymraeg.
- bod staff sy'n siarad Cymraeg yn cael eu hannog i siarad yr iaith gyda'r aelodau hynny o staff sy'n siarad Cymraeg a'r rheini sy'n dysgu Cymraeg.

- bod yr holl staff sy'n dysgu Cymraeg yn cael mynediad i gyfeiriadur staff Cymraeg y Gwasanaeth Tân ac Achub a gaiff ei ddiweddarau gan yr Adran Gwasanaethau Corfforaethol.
- bod Cysill, y sillafydd Cymraeg, a CysGair yn cael eu darparu i'r aelodau hynny o staff sy'n paratoi dogfennau Cymraeg ar brosesyddion geiriau.
- y rhoddir ystyriaeth i hyfforddi staff sy'n siarad Cymraeg fel mentoriaid i'r rhai sy'n ddysgwyr.
- y bydd pob un o'r ffactorau uchod yn cael eu hymgorffori mewn Strategaeth y Gwasanaeth Tân ac Achub ar Hyfforddiant Iaith Gymraeg.

### 6.3 Recriwtio

Mae'r Awdurdod yn ymrwymedig i sicrhau:

- pan ystyrir gallu ieithyddol yn hanfodol neu'n ddymunol ar gyfer unrhyw swydd, y bydd hyn yn cael ei nodi yn yr hysbyseb am y swydd honno.

“mae "hanfodol" yn y cyd-destun hwn yn golygu bod yr angen i siarad Cymraeg yn gwbl hanfodol.

“mae "dymunol" yn y cyd-destun hwn yn golygu y byddai'n ddymunol i benodi un sy'n siarad Cymraeg ond nad yw hynny'n gwbl hanfodol. Mewn sefyllfa lle mae dau ymgeisydd yn gwneud cais am swydd lle mae'r gallu i siarad Cymraeg yn "ddymunol", a bod gan y ddau ohonynt yr un cymwysterau, profiad a pherfformiad yn y cyfweiliad, ystyrir lefel y gallu ieithyddol yn sgil ychwanegol.

- Croesewir ceisiadau oddi wrth siaradwyr Cymraeg drwy hysbysebu'r holl swyddi yn ddwyieithog mewn cyhoeddiadau Saesneg sy'n cael eu hargraffu yng Nghymru.
- Pan fydd siaradwr di-Gymraeg yn cael ei benodi i swydd lle bernir bod y gallu i siarad Cymraeg yn hanfodol, bydd yn amod o'i gyflogaeth i ddysgu'r iaith i'r safon angenrheidiol o fewn cyfnod penodol, a gaiff ei strwythuro a'i arolygu yn briodol. Yn y cyfryw achosion rhoddir cefnogaeth lawn y Gwasanaeth Tân ac Achub.

### 6.4 Hyfforddiant Galwedigaethol

Mae'r Awdurdod yn ymrwymedig i sicrhau bod:

Yr angen am hyfforddiant galwedigaethol drwy gyfrwng y Gymraeg yn cael ei asesu.

- Bydd yr angen am hyfforddiant galwedigaethol i hwyluso'r gwaith o weithredu'r cynllun yn cael ei asesu a bydd y bylchau mewn hyfforddiant a gweithdrefnau datblygu staff yn cael eu clustnodi.

- Bydd aelodau'r staff sy'n siarad Cymraeg yn cael eu hannog i fynychu seminarau a chysiau drwy gyfrwng y Gymraeg yn eu meysydd perthnasol.

Bydd y mesur hwn yn cael ei atgyfnerthu o fewn polisïau Datblygu Personél y Gwasanaeth Tân ac Achub.

## **7.0 TREFNIADAU GWEINYDDOL**

Mae'r Awdurdod wedi cymeradwyo'r cynllun hwn ac mae'n ymrwymedig i sicrhau y bydd yn cael ei weithredu'n llwyddiannus drwy gymryd y camau canlynol:

Bydd Swyddog y Wasg a Chysylltiadau Cyhoeddus yn gyfrifol am gydlynu'r gwaith o roi'r cynllun ar waith ar draws y Gwasanaeth Tân ac Achub gan sicrhau:

- bod canllawiau a chyfarwyddiadau ysgrifenedig ar gael i bob aelod o staff;
- bod y gwaith o roi'r cynllun ar waith yn cael ei fonitro;
- bod cwynion a ffyrdd o ddatrys anawsterau yn cael eu hystyried;
- bod Adroddiad Blynyddol i'r Awdurdod ac i Fwrdd yr Iaith Gymraeg yn cael ei baratoi.

Bydd pob aelod o staff naill ai'n derbyn copi o'r Cynllun Iaith Gymraeg neu grynodedb o'r Cynllun Iaith Gymraeg sy'n amlygu gofynion y Cynllun unwaith y bydd y Cynllun wedi'i gymeradwyo. Hefyd cyhoeddir y Cynllun ar System Gwybodaeth Fusnes y Gwasanaeth Tân ac Achub ac ar Wefan y Gwasanaeth.

Mae'r systemau cyfrifiadurol presennol yn galluogi'r staff i gyhoeddi deunydd dwyieithog. Bydd yn rhaid i'r holl systemau a osodir yn y dyfodol hefyd fedru cynhyrchu deunydd yn ddwyieithog.

## **8.0 MONITRO AC ADRODD AR WEITHREDU'R CYNLLUN**

### **8.1 MONITRO**

Swyddog y Wasg a Chysylltiadau Cyhoeddus fydd yn goruchwyllo'r gwaith monitro fydd yn sicrhau bod y monitro yn weithgaredd strwythuredig a pharhaus sy'n ymestyn i'r rhai sy'n darparu neu'n gweinyddu gwasanaethau ar ran yr Awdurdod.

Bydd y Cynllun yn cael ei fonitro yn erbyn y targedau a nodir yn Atodiad A gan ganolbwyntio ar y meysydd canlynol:

#### **PRIF-FFRYDIO**

Bydd yr Awdurdod yn prif-ffrydio'r Gymraeg i bolisïau allweddol yr Awdurdod drwy lunio rhaglen strwythuredig o brif-ffrydio'r Gymraeg, i'w gwblhau yn ystod

oes y cynllun hwn.

## **PARTNERIAETHAU**

Bydd yr Awdurdod yn dosbarthu gwybodaeth am ofynion y Cynllun Iaith Gymraeg yn glir, ac yn sicrhau bod yr iaith yn rhan annatod o'r gwasanaeth a ddarperir gan eraill.

## **GWASANAETH WYNEB-YN-WYNEB**

Bydd yr Awdurdod yn mynd ati i annog bod mwy o wasanaethau wyneb-yn-wyneb yn cael eu darparu drwy gyfrwng y Gymraeg.

## **TECHNOLEG GWYBDOAETH**

Gweithredu safonau Technoleg Gwybodaeth y Bwrdd er mwyn sicrhau bod gwasanaethau a ddarperir yn electronig neu'r rhai sy'n gofyn defnyddio Technoleg Gwybodaeth ar gyfer eu gweinyddu, ar gael i'r un ansawdd yn Gymraeg a Saesneg drwy gytundeb â'r Bwrdd.

## **STAFFIO**

Cynyddu nifer y staff yn y gweithle sy'n gallu ac sydd yn gweithio drwy gyfrwng y Gymraeg er mwyn ateb y gofyn i ddarparu gwasanaethau o safon.

## **CWYNION**

Nifer y cwynion a dderbyniwyd am weithrediad y Cynllun Iaith a % y cwynion yr ymdriniwyd â hwy yn unol â safonau corfforaethol yr Awdurdod.

### **8.2 ADRODD**

Cyflwynir adroddiad blynyddol ar ffurf y cytunir arno gan Fwrdd yr Iaith Gymraeg fydd yn amlinellu'r camau ymlaen a gymerwyd o ran gweithredu'r cynllun yn erbyn yr amserlen a'r safonau a bennwyd.

### **9 CYHOEDDUSRWYDD I'R CYNLLUN**

Mae'r Awdurdod yn ymrwymedig i roi gwybod am ei wasanaethau iaith Gymraeg i'r cyhoedd yn barhaus drwy fabwysiadu'r mesurau canlynol:

- Darparu taflenni gwybodaeth i'w dosbarthu i'r cyhoedd mewn lleoliadau a digwyddiadau gan gynnwys llyfrgelloedd, cyngorau sir, ysbytai, canolfannau gwybodaeth i'r cyhoedd, sioeau blynyddol ac ati, gan nodi i ba raddau y gall y cyhoedd ddelio â'r Awdurdod yn Gymraeg, pa wasanaethau sydd ar gael ac ym mhle a phryd y maent ar gael.
- Sicrhau bod ei staff yn gyfarwydd â'r mesurau sydd yn y cynllun drwy roi crynodeb o'r cynllun i bob aelod o staff ynghyd â chanllawiau ynghylch gweithredu'r cynllun a thrwy roi copi o'r cynllun ym mhob gorsaf ac ym mhob adran, yn ogystal â'i gyhoeddi ar System Gwybodaeth Fusnes y

Gwasanaeth.

- Bydd staff sy'n delio â'r cyhoedd yn rheolaidd yn cael hyfforddiant sylfaenol ar gynnwys Cynllun Iaith Gymraeg y Gwasanaeth Tân ac Achub, ynghyd â'r disgwyliadau a'r gofynion o ran y Cynllun.
- Bydd arwyddion yn cael eu codi yn y manau croesawu yn y Pencadlys yn datgan bod croeso i'r cyhoedd ddelio â'r Gwasanaeth Tân ac Achub drwy gyfrwng y Gymraeg neu'r Saesneg.

## **10 Cwynion**

Dylid anfon cwynion neu sylwadau ar wella Cynllun Iaith Gymraeg yr Awdurdod at:

Rheolwr Gwasanaethau Corfforaethol  
Gwasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru  
Pencadlys y Gwasanaeth  
Lôn Pisgwydd  
Caerfyrddin  
SA31 1SP

Cydnabyddir derbyn cwynion cyn pen dau ddiwrnod gwaith, a rhoddir gwybod i'r achwynydd am ganlyniad yr ymchwiliad cyn pen deng niwrnod neu roi gwybod i'r achwynydd os bydd oedi cyn rhoi gwybod.

Mae delio â chwynion yn ddiymdroi ac yn benodol yn rhan o ymrwymiad y Gwasanaeth i safon dda o ofal cwsmer.

## **11 Ymchwiliad dan Adran 17 o Ddeddf yr Iaith Gymraeg**

Os bydd gofyn i'r Bwrdd gynnal ymchwiliad o dan Adran 17 o'r Ddeddf, bydd yr Awdurdod yn barod i gydweithredu'n llawn drwy roi gwybodaeth - adroddiadau, dogfennau neu eglurhad - i Fwrdd yr Iaith Gymraeg.

Bydd yr Awdurdod yn barod i wneud hyn ar lafar ac yn ysgrifenedig, a gall y Bwrdd gael trafodaethau gyda'r:

Aelodau Etholedig  
Gweithwyr y Gwasanaeth Tân ac Achub  
Darparwyr Gwasanaeth dan Contract a'u Gweithwyr  
Unrhyw unigolyn sy'n cynorthwyo'r Awdurdod